WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Date issued: 16 Mehefin 2017

Adroddiad Gwella Blynyddol Wrecsam a Gohebiaeth ynglŷn â Meithrinfa Sprouts

Rwy'n ysgrifennu i ymateb i'r cais am wybodaeth a wnaethoch ar 18 Mai 2017, yn gofyn am wybodaeth ynghylch Adroddiad Gwella Blynyddol Wrecsam a Gohebiaeth ynglŷn â Meithrinfa Sprouts.

Er hwylustod i chi, rydw i wedi cynnwys eich cwestiynau isod cyn amlinellu ein hymateb.

1. Hoffwn wybod (a) tua pryd rydych yn bwriadu cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol 2016-17 ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a (b) a oes modd codi pryderon a/neu dwyn eich sylw at materion penodol mewn pryd ichi fedru eu cynnwys yn yr adroddiad.

a) Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i dîm Cyhoeddi Swyddfa Archwilio Cymru ar 25 Mai 2017 a chaiff yr yr adroddiad ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Mehefin 2017.

b) Mae'r adroddiad drafft wedi'i gwblhau ar gyfer ei gyhoeddi ac nid yw'n bosibl cynnwys rhagor o ddeunydd yn yr adroddiad. Fodd bynnag, byddem yn croesawu unrhyw fanylion sydd gennych er mwyn ystyried y rhain yn ein gwaith parhaus yn yr awdurdod.

2. Dw i methu dod o hyd i unrhyw wybodaeth gennych yn ymwneud a Sprouts. Meithrinfa / menter gofal dydd ar gyfer plant yw hwn sy'n cael ei redeg gan Gyngor Wrecsam. Hoffwn weld unrhyw ohebiaeth a/neu ddogfennau sydd gan Swyddfa Archwilio Cymru ble mae'r fenter hon yn cael ei grybwyll, os gwelwch yn dda.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cael un llythyr mewn perthynas â gofal dydd Sprouts ac atodir darn o'r llythyr hwn ynghyd â chopi o'n hymateb. Mae enw a chyfeiriad y gohebydd wedi'u dileu o dan yr eithriad yn a40(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 oherwydd bod datgeliadau o dan y Ddeddf i mewn i'r parth cyhoeddus ehangach ac rwyf o'r farn na fyddai rhyddau'r wybodaeth hon o fewn disgwyliad rhesymol yr unigolyn dan sylw. Yn hynny o beth, mae'r datgeliad yn debygol o fod yn annheg a byddai datgelu'n torri Egwyddor Gyntaf Egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data sy'n ymwneud â thegwch.

Os hoffech gwyno am y modd y cafodd eich cais ei drin, ysgrifennwch at Martin Peters, Rheolwr y Gyfraith a Moeseg, drwy e-bost at martin.peters@archwilio.cymru neu drwy'r post i 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Rhaid imi hefyd eich cyfeirio at adran 50 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac o dan yr adran hon gallwch wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ynghylch a gafodd eich cais ei drin yn unol â'r Ddeddf. Dyma fanylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
e-bost: casework@ico.gsi.gov.uk
Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

Dylech nodi, fodd bynnag, y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl ichi fod wedi dihysbyddu ein gweithdrefnau cwyno mewnol cyn ymdrin â chais o'r fath. Ceir rhagor o ganllawiau ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: https://ico.org.uk/

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir